## 5 Sut a Phryd i Ymgeisio

- Rhaid i gyhoeddwyr rhaglen sy'n derbyn cyllideb flynyddol ar gyfer Arian-B gyflwyno rhestr o'r teitlau y bwriedir gwario arnynt i Is-bwyllgor mis Tachwedd. Nid oes angen brasluniau na thaflenni gwybodaeth (AIs), ond rhaid cynnwys disgrifiadau byr ar y tabl a ddarperir gan yr Adran Datblygu Cyhoeddi fel y gall yr Is-bwyllgor benderfynu a oes unrhyw deitl na ellir ei gefnogi, e.e. llyfr na fyddai wedyn yn gallu cael ei gefnogi gyda grant cyhoeddi.
- Gall cyhoeddwr nad yw'n derbyn cyllideb flynyddol gyflwyno cais unigol am arian B i unrhyw gyfarfod o'r Is-bwyllgor a rhaid ei gyflwyno ar y ffurflen gais sydd i'w chael o'r cyfeiriad ar ddiwedd y ddogfen hon. Rhaid cyflwyno disgrifiad o'r hyn a fwriedir, ynghyd â braslun o'r gwaith. Croesewir sampl byr yn ogystal.

Mewn achosion eithriadol gellir ystyried ceisiadau rhwng cyfarfodydd a'u cadarnhau yn y cyfarfod ffurfiol canlynol.

Os cynigir grant, gwneir hynny yn unol â'r amodau cyffredinol (gweler Adran B isod), yn ogystal ag unrhyw amodau arbennig a bennir yn achos cais unigol am arian B. **Disgwylir i bob ymgeisydd ymrwymo i'w derbyn wrth gyflwyno cais.**

**Bydd cystadlu brwd am y grantiau hyn: y mae'n bwysig, felly, bod pob ymgeisydd yn dadlau ei achos yn y dull llawnaf posibl.**

## 6 Talu'r Grantiau

Yn achos Cynllun B dylai cyhoeddwr hawlio'r taliadau, trwy gyflwyno ffurflen hawlio, yn ôl fel y telir hwynt i'r awduron. Disgwylir i gyhoeddwyr rhaglen gyflwyno cytundebau B Awdur a/neu anfonebau'r awduron/addaswyr wrth hawlio'r taliadau. Disgwylir y bydd cyhoeddwyr rhaglen a chyhoeddwyr teitlau unigol fel ei gilydd yn talu'r awdur o fewn mis i dderbyn y taliad gan y Cyngor Llyfrau.

## 7 Monitro a Gwerthuso'r Gwaith a Gefnogwyd

Bydd Cyngor Llyfrau Cymru'n gofyn am ffigurau gwerthiant ar gyfer pob llyfr a gefnogir gan y Grant Cyhoeddi yn y dull arferol.

Yn achos y cyhoeddwyr rhaglen, bydd eu holl lyfrau grant yn cael eu cloriannu'n flynyddol.

Cymerir y ffactorau hyn i ystyriaeth wrth gloriannu ceisiadau pellach gan yr un awdur.

